Cyllid ychwanegol i'r Gymraeg 2017-18

Fel rhan o'r cytundeb ar y gyllideb gyda Phlaid Cymru, cytunwyd i ddyrannu £5 miliwn ychwanegol ar gyfer y Gymraeg yn ystod 2017-2018.

Bydd £3 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn maes dysgu Cymraeg i Oedolion i ddatblygu'r ddarpariaeth o gyrsiau Cymraeg yn y gweithle.

Bwriad y papur yma yw rhoi diweddariad cryno ar sut rydym yn bwriadu gwario'r £2 filiwn yn ystod y flwyddyn i ddod a derbyn mewnbwn a sylwadau'r Cyngor Partneriaeth.

Mae'r gwaith o ystyried diwygio Mesur y Gymraeg eisoes wedi cychwyn a'n bwriad yw cyhoeddi Papur Gwyn i ymgynghori arno yn yr haf. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r strwythurau mwyaf addas ar gyfer y dyfodol er mwyn creu gwell cydbwysedd rhwng hybu a hwyluso, a rheoleiddio. Yn ganolog i hyn fydd trafodaeth ynglŷn â'r lle mwyaf priodol ar gyfer y gwaith hybu a hwyluso, a chyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid i fynegi barn.

Rhaglen Hybu Defnydd y Gymraeg

Yn ystod y cyfnod trosiannol hwn, byddwn yn defnyddio'r £2 filiwn ychwanegol i ffocysu ar:

- **Sefydlu Bwrdd Cynllunio** gyda chynrychiolwyr annibynnol i lywio ein gwaith Hybu a Hwyluso ac ystyried yr argymhellion sy'n deillio o'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r Mesur
- **Sefydlu Pwynt Cyswllt** clir fydd yn galluogi unigolion a chyrff i gael eu cyfeirio at wybodaeth berthnasol ynghylch y Gymraeg
- **Cydlynu'n well rhwng staff sy'n gweithio yn y maes cynllunio iaith** er mwyn cryfhau rhwydweithiau a rhannu arbenigedd
- **Creu ac ehangu ymgyrchoedd hybu cenedlaethol** fyddai'n annog defnyddio'r Gymraeg mewn meysydd penodol megis sector breifat, gweithio gyda rhieni i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg, hyrwyddo gwasanaethau, a hyrwyddo defnydd ymysg pobl ifanc.

Trafodaeth

Gofynnir i'r Cyngor Partneriaeth gynnig eu hargraffiadau cynnar ar yr uchod, ac adnabod materion allweddol y dylid eu hystyried dros y cyfnod trosiannol hwn.